

Ymgynghoriad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)	Evidence submitted to the Children, Young People and Education Committee for Stage 1 scrutiny of the Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Bill
CADRP-591	CADRP-591

Cyflwynwyd yr ymateb hwn yn ddwyieithog.

Amdanoch Chi

Sefydliad: Gofal Cymdeithasol Cymru

1 Egwyddorion cyffredinol y Bil

1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)?

– Ydw

1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

Sefydlwyd Gofal Cymdeithasol Cymru (o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2014) ym mis Ebrill 2017 gan ddod â rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau at ei gilydd o fewn un sefydliad. Bydd gennym rôl ddylanwadol yn y gwaith o lunio blaenoriaethau ymchwil a meithrin cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid er mwyn gwella gofal a chymorth. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gyfrifol am ddatblygu'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Nod ein gwaith yw cefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer y sector, y cyhoedd a Llywodraeth Cymru.

Mae ein tri nod strategol isod yn diffinio'r hyn a wnawn:

- rhoi hyder i'r cyhoedd
- arwain a chefnogi gwelliant
- datblygu'r gweithlu

Mae'r ddogfen ymgynghori a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Cynnig i Ddileu'r Amddiffyniad o Gosb Resymol yn 2018 yn nodi:

“Roedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael cefnogaeth drawsbleidiol i ddileu amddiffyniad cosb resymol wedi'i nodi yn "Symud Cymru Ymlaen", y Rhaglen Lywodraethu (Medi 2016), sy'n amlinellu'r camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod ei thymor o bum mlynedd i wella bywydau pobl yng Nghymru.

Mae'r strategaeth genedlaethol, "Ffyniant i Bawb", a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod profiadau unigolyn yn ystod ei blentyndod yn chwarae rhan bwysig wrth lunio ei ddyfodol, ac maent yn hollbwysig wrth ystyried pa mor debygol ydyw o fynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn”

Rydym yn croesawu cyflwyno deddfwriaeth yn hyn o beth gan nad yw deddfwriaeth ar hyn o bryd yn rhoi'r un hawliau i blant ag i oedolion, ac o'r herwydd mae angen newid deddfwriaeth i gyflawni gofynion egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi ac yn mynd ati i hyrwyddo'r CCUHP ym mhob agwedd ar ein gwaith gyda phlant. Rydym yn cefnogi ac yn cydweithio â Chomisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru i wella cydraddoldeb profiad a chyfleoedd bywyd plant yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant sy'n profi gofal.

Rydym yn nodi o'r dogfennau ymgynghori cynnar a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, bod y bwriad i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol os bydd rhiant yn 'smacio' plentyn wedi'i egluro a'i ymestyn. Ar hyn o bryd caniateir yr amddiffyniad hwn yn y gyfraith, sydd yn ymarferol yn golygu y gall rhiant 'smacio' ond ni ddylai adael marc na pheri unrhyw niwed parhaol i'r plentyn. Rydym yn croesawu'r gwahaniaeth yn y Bil drafft i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â phob cosb gorfforol ac i ddileu'r cyfyngiadau drwy gynnwys hyn ym mhob achos sifil neu droseddol ac mewn cyfraith gyffredin. Mae'r ymgynghoriad ar y Bil yn cyfeirio at gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol gan dynnu llinell sy'n llawer haws i'w hegluro a'i deall. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gellir rhoi cyngor nad yw plentyn, o dan unrhyw amgylchiadau, i gael ei gosbi'n gorfforol, ac felly bydd gweithwyr proffesiynol a theuluoedd yn gallu gweithio i ddod o hyd i dechnegau rheoli ymddygiad cadarnhaol sy'n parchu hawliau'r plentyn.

Mewn perthynas â'n prif gylch gwaith a'n ffocws, ni chaniateir i unrhyw weithiwr proffesiynol, boed yn weithiwr cymdeithasol, athro, nyrs feithrin, gofalwr maeth neu unrhyw un arall ddefnyddio cosb gorfforol resymol gyda phlentyn yn eu gofal. Mae'n annhebygol felly y bydd hyn yn newid i sefyllfa pobl sy'n gweithredu in loco parentis.

P'un ai oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;

Mae angen ystyried y posibilrwydd y bydd adrodd i'r heddlu/gwasanaethau cymdeithasol/gwasanaethau iechyd yn cynyddu wrth i'r defnydd o 'gosb resymol' gael ei wahardd, gan arwain at ymchwiliad a chosbau. Nodwn nad yw hyn yn debygol o newid y

trothwyon ar gyfer ymyrraeth barhaus ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol statudol. Efallai y bydd yr heddlu'n gweld bod ganddynt nifer uwch o adroddiadau y mae angen ymchwilio iddynt (fel yn 4.11 y memorandwm esboniadol – bydd angen cynnal ymchwiliad er mwyn penderfynu ar gamau priodol).

Gall adnoddau i ymdrin â honiadau cynyddol (maleisus neu fel arall) a wneir i ystod o wasanaethau, ac yna'r potensial i gynnig cymorth rhianta pellach i deuluoedd, effeithio ar wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, yn enwedig yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn ymateb i'r gofynion hyn o fewn gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Wrth gwrs mae'r agenda ataliol yn egwyddor arweiniol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac fe fuaswn yn argymhell bod hyn angen buddsoddiad a monitro pellach er mwyn deall y goblygiadau adnoddol.

1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

-

2 Gweithredu'r Bil

2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

-

2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

-

3 Canlyniadau anfwriadol

3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

-

4 Goblygiadau ariannol

4.1 A oes gennych farn ar oblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os na, ewch i gwestiwn 5.1

-

5 Ystyriaethau eraill

5.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

-